**COD YMARFER SY'N YMDRIN Â'R BERTHYNAS RHWNG CYFARWYDDWR CYFFREDINOL A SWYDDFA ANNIBYNNOL YMDDYGIAD YR HEDDLU**

## 1. Rhagarweiniad/Pwrpas y Cod

Derbyniodd Deddf Plismona a Throseddu 2017 Gydsyniad Brenhinol yn Ionawr 2017. Mae'r Ddeddf yn ailddynodi'r corff corfforaethol sy'n Gomisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu (y ***Comisiwn***) yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (y ***Swyddfa***). Mae'r Swyddfa yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol (CC) wedi'i benodi gan y goron ac o leiaf chwech aelod arall, gydag aelodau anweithredol mewn mwyafrif. Daeth y newidiadau llywodraethu hyn i rym ar 8 Ionawr 2018. Cyfeirir at y Swyddfa fel y 'Bwrdd Unedol' pan fydd aelodau'r Swyddfa'n cyfarfod i lywodraethu.

Mae Pennod 5, Adran 34 y Ddeddf yn ychwanegu adran newydd 10D o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (y ***PRA***), sy'n gofyn i God Ymarfer gael ei baratoi a'i gyhoeddi, gan ddelio â'r berthynas rhwng y CC a'r Swyddfa. Mae'n rhaid i hyn yn benodol geisio adlewyrchu'r egwyddor bod y CC i fod i weithredu'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau mewn cysylltiad a chyflawni swyddogaethau'r CC. Mae'n rhaid i'r Cod hefyd gynnwys darpariaeth ynghylch sut
mae strategaeth ar gyfer swyddogaethau'r CC i fod i gael ei pharatoi a'i chytuno gan y Swyddfa.

Mae'r Cod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Swyddfa mewn cyfarfod Bwrdd a bydd y CC a'r Swyddfa wedyn yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

## 2. Swyddogaethau

Swyddogaeth statudol ***y Cyfarwyddwr Cyffredinol*** *yw (ar ffurf crynodeb)*:

- sicrhau cynnal y Cyfarwyddwr Cyffredinol, cyrff plismona lleol a phrif swyddogion, o 'drefniadau addas' ynghylch trafod, cofnodi ac ymchwilio i gwynion, honiadau o gamymddwyn/troseddoldeb a materion marwolaeth neu anaf ddifrifol, ynglŷn ag unigolion sy'n gwasanaethu â'r heddlu (cyfeirir ato'n gyffredinol yn aml fel 'system gwynion yr heddlu')
- i gadw'r 'trefniadau addas' hyn ynglŷn â 'system gwynion yr heddlu':
  - o dan adolygiad;
  - cydymffurfio a darpariaethau'r PRA;
  - yn effeithlon ac yn effeithiol; a
  - chynnwys a dangos graddfa briodol o annibyniaeth.
- i sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu.
- i wneud argymhellion, a rhoi cyngor, er mwyn addasu'r:
  - 'trefniadau addas' hyn; neu
  - ymarfer heddlu mewn perthynas â materion eraill, fel y mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ystyried yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
- cyflawni'r swyddogaethau uchod mewn perthynas â chyrff eraill o gwnstabliaid (h.y. cwnstabliaethau nad ydynt yn cael eu cynnal gan gyrff plismona lleol) i'r fath raddau ag sy'n ofynnol i wneud hynny trwy reoliad neu

yn dilyn unrhyw gytundeb neu orchymyn o dan adran 26 o'r PRA;

- i gyflawni'r swyddogaethau uchod mewn perthynas â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol neu yn dilyn unrhyw reoliadau o dan adran 26C o'r PRA;
- i gyflawni'r 'fath swyddogaethau cyfatebol' mewn perthynas â swyddogion Meistri'r Gangiau a'r Awdurdod Cam-drin Llafur (yn rhinwedd eu swydd fel swyddogion atal cam-drin llafur) neu'n dilyn unrhyw reoliadau o dan adran 26D o'r PRA;
- i gael y swyddogaethau wedi'u rhoi i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn rhinwedd:
    - unrhyw reoliadau a gyhoeddir ymhellach i adran 39 y PRA ynglŷn â phwerau heddlu ar gyfer staff wedi'u contractio allan;
    - unrhyw reoliadau neu drefniadau ynghylch achosion disgyblu neu debyg yn erbyn unigolion sy'n gwasanaethau â'r heddlu neu yn erbyn unrhyw aelodau o unrhyw gorff o gwnstabliaid a gynhelir heblaw gan gorff plismona lleol.
- unrhyw swyddogaethau a roddir i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol trwy reoliadau o dan adran 29C o'r PRA (rheoliadau am uwch gwynion);
- unrhyw swyddogaethau a roddir ar y Cyfarwyddwr Cyffredinol gan adran 2B PRS (chwythu chwiban) (pan ddaw rhan 2B i rym);
- i ymarfer y pwerau a'r dyletswyddau a roddir i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gan y PRA mewn ffordd y mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ystyried wedi'i mesur orau i fodloni'r swyddogaethau uchod;
- i sicrhau bod trefniadau yn bodoli sy'n cyd-fynd â, ac yn hwyluso, yr adrodd o gamymddwyn gan unigolion y mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol swyddogaethau am eu hymddygiad;
- i fynd i mewn i drefniadau â phrif arolygydd y gwnstabliaeth at ddibenion sicrhau cydweithrediad, wrth gyflawni eu swyddogaethau priodol, ac i ddarparu'r holl gymorth a chydweithrediad o'r fath i arolygwyr y gwnstabliaeth fel y gall fod yn ofynnol gan y trefniadau hynny, neu fel y mae'n ymddangos fel arall i fod yn briodol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol;
- i ystyried unrhyw gyngor a ddarperir i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gan y Swyddfa;
- yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y PRA, gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi'i gyfrifo i hwyluso, neu mae'n cyd-daro neu'n cyd-fynd â chyflawni swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau statudol ynghylch y swyddogaethau hyn yn cael eu gwneud yn enw'r CC.

Swyddogaethau'r ***Swyddfa*** yw i:

- sicrhau bod gan y Swyddfa drefniadau priodol mewn grym ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol da;
- bennu a hyrwyddo nodau a gwerthoedd strategol y Swyddfa;
- ddarparu cymorth a chyngor i'r CC wrth gyflawni swyddogaethau'r CC;
- fonitro ac adolygu cyflawni swyddogaethau o'r fath.

Mae gan y Swyddfa hefyd y fath swyddogaethau ag y rhoddir iddi trwy unrhyw deddfu arall (pryd bynnag y caiff ei gymeradwyo neu ei wneud). Mae'r Swyddfa i fod i berfformio ei swyddogaethau at ddibenion cyffredinol gwella'r ffordd mae swyddogaethau'r CC yn cael eu cyflawni (gan gynnwys trwy annog y defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau yng nghyflawni'r swyddogaethau hyn). Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Swyddfa ystyried yn neilltuol: hyder cyhoeddus ym modolaeth trefniadau addas ynghylch ymdrin â,

cofnodi ac ymchwilio i gwynion, honiadau o gamymddwyn/troseddoldeb a materion marwolaeth neu anaf ddifrifiol, ynghylch unigolion sy'n gwasanaethu â'r heddlu; a, gweithredu'r trefniadau sydd mewn gwirionedd yn cael eu cynnal ynghylch y materion hynny.

Gall y Swyddfa wneud unrhyw beth sy'n ymddangos iddi i fod wedi'i fwriadu i hwyluso, neu sy'n cyd-daro neu'n cyd-fynd â, chyflawni ei swyddogaethau.

Mae'n rhaid i'r CC a'r Swyddfa ***ar y cyd***:

- baratoi strategaeth sy'n amlinellu sut mae'r CC a'r Swyddfa yn cynnig cyflawni eu swyddogaethau dros gyfnod y strategaeth;
- adolygu'r strategaeth a'i ddiwygio fel ei fod yn briodol o leiaf unwaith bob 12 mis;
- gynnwys o fewn y strategaeth gynllun ar gyfer y defnydd o adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r CC a'r Swyddfa;
- gyhoeddi'r Strategaeth.

Mae'n rhaid i bob un gyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn gweithredu'r strategaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau.

**3. Gosod y Strategaeth**

Bydd y strategaeth ar ffurf Cynllun Strategol, yng nghwmni Cynllun Busnes blynyddol sy'n amlinellu sut y bydd y CC a'r swyddfa yn gweithredu'r strategaeth yn y cyfnod hwnnw o flwyddyn (yn enwedig sut y bydd adnoddau yn cael eu defnyddio).

Bydd y CC yn paratoi Cynllun Strategol a Chynllun Busnes drafft ar gyfer adolygiad, trafodaeth, diwygio (fel y bod angen) a chytundeb gan y Swyddfa. Bydd y Cynllun Strategol yn cynnwys datganiad o nodau a gwerthoedd strategol y Swyddfa.

Bydd y Cynllun Strategol yn cael ei adolygu bob blwyddyn ochr yn ochr â'r Cynllun Busnes i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Os yw newidiadau sylweddol yn ofynnol yna bydd Cynllun Strategol aml-flwyddyn yn cael ei gynhyrchu a'i gytuno. Gall mân addasiadau, â chytundeb y Swyddfa, gael eu cytuno a'u dogfennu fel rhan o'r Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn honno.

**4. Monitro cyflawni swyddogaethau'r CC.**

Yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd y CC yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r swyddfa i ganiatáu i'r swyddfa fonitro cynnydd mewn cyflawni'r Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys adrodd am ac allbwn y gyllideb a gymeradwywd.

Wrth graffu ar adroddiadau'r CC, bydd y swyddfa yn cynnig cymorth, her a chyngor i wella effeithiolrwydd y CC wrth gyflawni ei swyddogaethau. Bydd y CC yn ystyried y cynrychiolaethau hynny tra'n cynnal disgresiwn / annibynaeth lwyr mewn cyflawni ei swyddogaethau. Ni fydd y swyddfa ar y cyd, nac aelodau unigol anweithredol, yn ceisio dylanwadu ar unrhyw drafodaethau gweithredol unigol sy'n parhau, er y gallant holi a herio gwneud penderfyniadau hanesyddol unigol neu thematig weithredol fel rhan o rôl y Swyddfa o gynorthwyo, cynghori, monitro ac adolygu ymarfer y CC o'i swyddogaethau.

Lle mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r cyngor a roddodd wedi cael ei ddilyn gan y CC a bod angen ei gofnodi'n ffurfiol - bydd y cyngor hwn yn cael ei ddogfennu yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd a bydd ymateb y CC i'r cyngor (gan gynnwys y rhesymau am beidio â dilyn y cyngor) yn cael ei adlewyrchu yn yr un modd yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd. Bydd y cofnodion yn cyfeirio at y cyngor hwn trwy gyfeiriad at y ddarpariaeth statudol berthnasol (adran 10D(3)(PRA).

**5. Craffu ar drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol da.**

Bydd y swyddfa yn sicrhau llywodraethu a rheolaeth ariannol da trwy sefydlu Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg (yn unol a pharagraff 10(1A)(b) o atodlen 2 PRA) y bydd ei orchwyl yn cynnwys archwilio a risg a chraffu ar faterion ariannol a llywodraethu.

Mae'r CC wedi cael ei benodi fel Swyddog Cyfrifyddu y SAYH trwy lythyr dyddiedig 8 Ionawr 2018 gan Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gartref Philip Rutnam (y prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr Adran Gartref). Mae'r llythyr yn egluro:

"*Fel Swyddog Cyfrifyddu rydych chi [y CC] yn atebol, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Fframwaith, am ddefnydd y SAYH o adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Yn neilltuol, rwy'n disgwyl i chi gymryd cyfrifoldeb personol dros y canlynol (fel ei fod yn briodol):*

- *(a) llofnodi cyfrifon ffurfiol y sefydliad yn bersonol, ei Adroddiad Blynyddol a'r datganiad llywodraethu;*
- *(b) sicrhau bod gweithdrefnau ariannol cywir yn cael eu dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cynnal mewn ffurf sy'n ateb gofynion rheolaeth fewnol y sefydliad, y trefniadau monitro a gytunwyd â'r Adran a chyfrifon ffurfiol y SAYH;*
- *(c) sicrhau bod y cyllid cyhoeddus rydych yn gyfrifol amdano fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u rheoli a'u diogelu yn gywir ac yn dda, gyda gwiriadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian yn nwylo unrhyw swyddog. Mae'n rhaid cymryd gofal tebyg, gan gynnwys gwiriadau fel ei fod yn briodol, o unrhyw asedau gan gynnwys storfeydd, cyfarpar eiddo o unrhyw fath a ddelir gan y SAYH;*
- *(d) osgoi gwastraff a gormodedd a cheisio darbodusrwydd, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yn nefnydd pob adnodd sydd ar gael i'r SAYH.*

*At y diben hwn dylech sicrhau bod y SAYH yn drefnus ac wedi'i staffio yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn MPM a bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i ddarparu sgiliau a gwasanaethau arbenigol...."*

Bydd y Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg, ynghyd â'r Bwrdd Unedol a Phwyllgor Pobl a Diwylliant (mewn perthynas â materion penodol i Bobl), yn darparu craffu, cyngor a chymorth i'r CC wrth ymarfer ei swyddogaeth Swyddog Cyfrifyddu.

**6. Cyhoeddi, Adolygu a Diwygio**

Bydd y Cod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y SAYH gan nodi'r dyddiad y mae'n berthnasol. Mae'n rhaid iddo gael ei adolygu ar y cyd yn flynyddol.

**Gorffennaf 2022**